

## Gweledigaeth Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu cynaliadwy fel ei hegwyddor craidd: mae hyn yn golygu gwella ansawdd bywyd pobl a chymunedau Cymru yn yr hirdymor. Rydym yn gweithio gyda busnesau i gyflawni'r ymrwymiad hwn drwy hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

## Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol

Wrth ysgwyddo eu cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, dylai busnesau'n ystyried materion cymdeithasol ac amgylcheddol wrth weithredu ac wrth ryngweithio â'u rhanddeiliaid yn wirfoddol.

Rydyn ni wedi ymrwymo i ddyfodol lle bydd busnesau Cymru'n:

- **Adeiladu gweithleoedd iach, diogel a theg**, drwy arwain, gosod targedau a pholisïau, ac adrodd am berfformiad yn y meysydd canlynol: boddhad y staff, hyfforddi a datblygu, absenoldeb, gwydnwch emosiynol, cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac iechyd a diogelwch;
- **Meithrin perthynas dda â'r gymuned**, drwy leihau effaith gyffredinol y busnes ar yr amgylchedd yn gyffredinol ac ar ardaloedd lleol, darparu swyddi i bobl leol, annog gwirfoddoli a gwaith elusennol, a buddsoddi mewn prosiectau cymunedol a thrydydd sector (yn enwedig mewn ardaloedd tlawd);
- **Gweithredu mewn modd carbon isel sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon** drwy leihau'r defnydd o ynni a deunyddiau crai a chynyddu aildefnyddio, ailgylchu ac ailgyfeirio cynnyrch ac elifion i ymestyn eu hoes;
- **Gweithredu'n deg yn y farchnad**, drwy weithredu'n foesebol ac yn dryloyw gan drin cwsmeriaid a chyflenwyr yn deg a rheoli effaith cynnyrch a gwasanaethau ar bobl sy'n agored i niwed.

## Egwyddorion cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol

Mae arnom angen i fusnesau gydweithio â ni i wneud Cymru'n genedl gynaliadwy a llewyrchus. Dylai'r cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol fod yn set o egwyddorion trefniadol gwirioneddol sy'n berthnasol i bob math o fusnes.

Drwy fabwysiadu'r egwyddorion hyn a gwneud cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol yn ganolog i'r ffordd y maent yn gweithredu, bydd busnesau'n gallu dangos bod eu penderfyniadau a'u gweithrediadau'n hyrwyddo a sicrhau lles, drwy:

- sicrhau bod pob penderfyniad yn hyrwyddo lles hirdymor pobl a chymunedau; di ddylid hyrwyddo camau gweithredu byrdymor sy'n ein cloi ni mewn i ffyrdd anghynaliadwy o gynnal busnes;
- sicrhau bod yr holl benderfyniadau'n rhoi ystyriaeth lawn, lle bynnag y bo modd, i'r

canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a geisir;

- ymgysylltu â'r gweithwyr, cymunedau, cwsmeriaid a chyflenwyr y bydd y penderfyniadau'n effeithio arnynt, fel bod gweithio mewn partneriaeth ar gyfer lles cynaliadwy'n dod yn rhan anhepgor o'n gwaith.

## **Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol – y manteision i fusnesau**

Bydd busnesau sy'n mabwysiadu egwyddorion cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol yn:

- dod yn fwy effeithlon, er enghraifft, drwy gynyddu effeithlonrwydd a lleihau gwastraff er mwyn arbed costau;
- recriwtio a chadw mwy o staff o ganlyniad i wella enw da'r busnes a sefydlu arferion ac amodau da yn y gweithle;
- gwella'r dulliau rheoli risg ac arloesi, a chanfod marchnadoedd newydd drwy ddatblygu perthynas bositif gyda'r cyflenwyr, cwsmeriaid a chymunedau;
- ennill cwsmeriaid a buddsoddwyr newydd sy'n cael eu denu at fusnes sydd ag enw da cymdeithasol ac amgylcheddol.

## **Ymrwymiad Llywodraeth Cymru**

Rydym yn ymrwmo i ystyried ein cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol yn ein holl benderfyniadau a'n prosesau gweithredu. Golyga hyn y byddwn yn:

- bod yn glir ynghylch ein swyddogaeth, ein cyfrifoldebau a'n hymrwymadau mewn perthynas â chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol;
- rhoi arweiniad clir o ran cyfrifoldeb corfforaethol, o fewn ein sefydliad ac ymhlith y cyrff yr ydym yn cydweithio â nhw;
- hyrwyddo gwelliant parhaus fel ein bod yn gallu parhau i leihau effaith amgylcheddol ein holl weithgareddau;
- sicrhau bod cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol yn greiddiol i'n holl benderfyniadau;
- ymdrechu i osod esiampl fel sefydliad, gan arwain ac ysbrydoli eraill.

I ddangos ein hymrwymiad i gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, byddwn yn:

- rhannu esiamplau o'r ffordd yr ydym yn ystyried materion cymdeithasol ac amgylcheddol, a hyrwyddo lles wrth wneud ein penderfyniadau;
- dangos sut rydym yn hyrwyddo lles ein staff;
- rhannu ein syniadau a'n gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a'r rhan y byddwn ni fel sefydliad yn ei chwarae yn hynny;

- darparu enghreifftiau o'r gwaith rydym wedi ei wneud i hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol yng Nghymru.

## **Y camau nesaf**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad egwyddorion cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a bydd yn hyrwyddo ymrwymiad busnesau a rhanddeiliaid eraill i'r egwyddorion hyn.

Byddwn yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i rannu'r hyn a ddysgwn a'n profiad ac i hyrwyddo enghreifftiau o'r arferion busnes gorau.

Byddwn yn cyhoeddi ein cynnydd ar [busnes.cymru.gov.uk](http://busnes.cymru.gov.uk)

Ni fydd busnesau'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd y mae Llywodraeth Cymru'n cynnig ei gosod ar ei hunan a chyrrff cyhoeddus eraill i ystyried datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, mae busnesau mwyaf blaengar yn mabwysiadu'r egwyddor hwn eisoes gan ei fod yn arfer busnes rhagorol.

Gall sefydliadau ymuno â'r grŵp hwn drwy gofrestru ar gyfer Siarter Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a gwaith a rhaglen iechyd 'Cymru Iach ar Waith' ([www.cymruiacharwaith.com](http://www.cymruiacharwaith.com)), er mwyn gallu rhannu syniadau a llwyddiannau â rhwydwaith o sefydliadau eraill y Siarter. Ceir rhagor o fanylion ar ein [gwefan](#).